

Statws RAG

- Coch: dan y targed
- Oren: Bron a chyrraedd y targed
- Gwyrdd: Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed



Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Allbynnau allweddol yn ystod y chwarter:



- Erthyglau technegol a gyhoeddwyd:



PWYSIGRWYDD
BIOAMRYWIAETH A BYWYD
GWYLLT AR DIR FFERM



EFFAITH NEWID MEWN HINSAWDD AR
SYSTEMAU AMAETHYDDOL SY'N
SEILIEDIG AR LASWELLT



NEWID HINSAWDD MEWN SYSTEMAU
AMAETHYDDOL SY'N SEILIEDIG AR
LASWELLT: DULLIAU ADDASU



NEWID HINSAWDD MEWN SYSTEMAU
AMAETHYDDOL SY'N SEILIEDIG AR
LASWELLT: DULLIAU LLINIARU




GEFEILLIO MEWN BUCHESI SUGNO – A
ALLAI FOD YN SYSTEM DDEFNYDDIOL AR
GYFER CYNYYDDU PROFFIDIOLDEB



EFFEITHLONRWYDD PORTHANT MEWN
ANIFEILIAID CNOI CIL: EFFEITHIAU AR
GYNHYRCHIANT A'R AMGYLCHEDD

- Mynychu Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Gwyddor Anifeiliaid Prydain
- Adolygu cynigion prosiect ar gyfer prosiectau ffermydd y Rhwydwaith Arddangos




Cliciwch yma i ddarllen yr erthygl gyfan.

Datrysiadau economi cylchol ar gyfer gwastraff amaethyddol

Mae baich cynhyrchu gwastraff organig yn broblem enfawr ar gyfer amaethyddiaeth yn y DU. Fodd bynnag, gellir defnyddio sgil-gynhyrchion, megis gwastraff bwyd neu slyri, er mwyn cynhyrchu ynni, a gall gynnwys adnoddau gwerthfawr megis maetholion, sy'n bosib eu hailgylchu.

Mae'r economi cylchol yn gysyniad lle bo baich gwastraff yn cael ei reoli a bod adnoddau'n cael eu hadhawlio er mwyn sicrhau'r fantais neu'r gwerth mwyaf posibl o'r deunyddiau gwastraff hyn.

Gall bio-ailgylchu ein galluogi i dynnu gwerth o gynnyrch gwastraff organig, trwy organebau megis algae neu anifeiliaid di asgwrn cefn, a ellir eu defnyddio yn eu tro fel ffynhonnell protein ar gyfer bwyd da byw.



Effeithlonrwydd porthiant mewn anifeiliaid cnoi cil

Mae effeithlonrwydd porthiant mewn anifeiliaid cnoi cil yn faes ymchwil pwysig a chyfredol gyda llawer o ddi-ddordeb mewn bridio o'r anifeiliaid mwyaf effeithlon o ran porthiant er mwyn lleihau'r mewnbynnau angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu cilogram o gig neu laeth. Sgill effeithiau manteisiol hyn yw'r lleihad mewn cynnyrch gwastraff, yn enwedig y rhai hynny sy'n niweidiol i'r amgylchedd. Mae ymchwilwyr yn IBERS, Prifysgol Aberystwyth wedi darganfod bod amrywiaeth mawr iawn rhwng poblogaethau microbaidd anifeiliaid cnoi cil gyda rhai'n gallu trosi bwyd yn llawer mwy effeithlon nag eraill. Gallu adnabod yr anifeiliaid hynny sy'n trosi bwyd yn y modd mwyaf effeithlon heb orfod defnyddio profion gwyddonol cymhleth yw'r cam nesaf yn y gwaith ymchwil. Mae gwyddonwyr yn edrych ar fesuriadau ffenoteipol (h.y. mesuriadau y mae modd eu gweld) megis cynnydd pwysau byw neu ymddygiad porthi er mwyn gweld a oes unrhyw batrymau a fydd yn galluogi mesuriadau i gael eu cofnodi ar ffermydd, gan alluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau dethol yn seiliedig ar effeithlonrwydd porthiant.

Partneriaeth Arloesi Ewrop ■



Gall gweithio'n unigol ei gwneud hi'n anodd i ganfod datrysiadau.
Working in isolation can make finding solutions difficult.

Mae EIP Amaeth Cymru yn cyllido grwpiau o unigolion sydd yn edrych am ddatrysiadau arloesol i sialensiau cyffredin.
EIP Agri Wales funds groups of individuals seeking innovative solutions to similar challenges.

Gellir cysylltu grwpiau ledled Ewrop i rannu syniadau a gwybodaeth ynglŷn â themâu cyffredin.
Throughout Europe, groups can be linked up to share ideas and information on common themes.

MAWRTH	EBRILL	MAI
2 brosiect wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru 3 adolygiad llenyddiaeth wedi'u cwblhau gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth	2 adolygiad llenyddiaeth wedi'u cwblhau gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth	Trafodaethau ynglŷn â phrosiectau posibl gyda sawl grŵp 1 adolygiad llenyddiaeth wedi'i gwblhau gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Lab Amaeth ■

Mae'r Lab Amaeth yn ystyried amrywiaeth eang o adnoddau Amaethyddiaeth Manwl Gywir ar gyfer y diwydiant gan gynnwys y sector garddwriaeth. Bydd amrywiaeth eang o arddangosfeydd i'w gweld yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol.

Yn ddiweddar, bu aelodau Lab Amaeth Cyswllt Ffermio yn nodi eu '5 datblygiad mwyaf arloesol' y dylai ffermwyr a choedwigwyr Cymru gadw llygad amdanynt. Ar y rhestr, mae **'Ffermio Fertigol'**, sef system dyfu effeithlon a thechnoleg yn seiliedig ar y dechnoleg **hydroponeg** ddiweddaraf.

Mae fforwm y Lab Amaeth yn credu'n gryf y gallai'r system chwarae rhan bwysig o ran wynebu heriau lleol a byd-eang o ran cynhyrchu bwyd a'i fod yn cynnig cyfle i ffermwyr Cymru.
Bydd fforwm y Lab Amaeth yn cynnal digwyddiad agored arbennig yn 2017 a fydd yn cynnig cyfle i bobl ddysgu mwy am y dechnoleg a'i bosibiliadau yng Nghymru.

Vertical Farming


Fel rhan o'r paratodau ar gyfer yr arddangosfa yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru 2017, cynhaliwyd ymweliadau â Phrifysgol Harper Adasm i weld eu gwaith yn ymwneud â ffermio manwl gywir.

Cafodd y tîm Lab Amaeth gyfarfod cadarnhaol gyda Fforwm Ieuenctid CAFC a phenderfynwyd penodi Stiward Arloesedd o blith ei aelodau ifanc. Bydd y Stiward yn ymchwilio i arloesedd yn ystod wythnos y sioe ac yn amlygu'r hyn sy'n dod i fyny yn y diwydiant.

Teithiau Astudio ■


Gall treulio amser yn ymweld â busnesau eraill fod yn ffordd werthfawr o ddarganfod gwell dulliau o weithio, gweld arfer dda ar waith a dod â syniadau newydd adref i arloesi'r fenter.

Gall grwpiau o ffermwyr a choedwigwyr cymwys ymgeisio am hyd at £3,000 fesul grŵp i ariannu taith astudio o fewn y DU am gyfnod o hyd at 4 diwrnod.



NFU Clwyd – Ayrshire & Isle of Arran

7 – 10 Mai



“Bûm yn ymweld â Gledpark Venison i ddysgu mwy am y broses o redeg fferm geirw o ddydd i ddydd. Fel grŵp yn gyffredinol, ffermwyr biff, defaid a llaeth ydym ni ynghyd â thyfwyr cnydau â'r. Ychydig iawn o arallgyfeirio sy'n cael ei wneud o fewn y grŵp felly mae'r ymweliad hwn â'r Alban wedi rhoi syniad i ni ynglŷn â'r hyn a ellir ei ddatblygu yng Ngogledd Cymru, yn hytrach na'r mathau arferol neu draddodiadol o ffermio sy'n cael ei wneud gan aelodau'r grŵp ar hyn o bryd”

